# Protocol Diogelu Plant | Safeguarding Protocol

Awst 2023

Rhaid i bob darparwr gydymffurfio â'r canllawiau statudol diweddaraf - Social care Wales (diogelu.cymru)

Mae protocolau e-sgol yn sicrhau bod athrawon a dysgwyr yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Wrth ystyried a ffurfio y pwyntiau canlynol, ystyrir y 'Live-streaming and video-conference: safeguarding principles and practice guidance' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ac sydd ar gael drwy Hwb.

**Bydd y protocolau hyn yn eistedd law yn llaw â pholisiau y sefydliadau perthnasol, ac nid yn eu disodli.**

## Dylai darparwyr cyrsiau canolog e-sgol sicrhau:

- Bod holl staff/ymwelwyr/myfyrwyr yn cael gwybod pwy yw'r Arweinydd/Dirprwy Diogelu Dynodedig ar gyfer y sefydliad;
- Bod holl bryderon diogelu yn cael eu hadrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig yn yr ysgol ddarparol/e-sgol ei hun a'r ysgol gartref ar unwaith a bydd ysgol gartref y dysgwr wedyn yn cytuno pwy fydd yn gwneud yr atgyfeiriad os oes angen ac/neu yn penderfynu ar y camau ymatebol priodol;
- Os oes, ar unrhyw adeg, risg o niwed difrifol uniongyrchol i blentyn, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdodau brys perthnasol ar unwaith;
- Bod ganddynt bolisi diogelu plant mewn lle sydd yn unol â'r gweithdrefnau cenedlaethol;
- Eu bod yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn gwneud yn siŵr bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant;
- Bod ganddynt weithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol;
- Bod aelod o UDRh yr Ysgol / e-sgol wedi'i ddynodi i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am ymdrin â materion diogelu plant, darparu cyngor a chymorth i staff eraill, cysylltu â'r awdurdod lleol, a gweithio gydag asiantaethau eraill. Rhaid i'r person dynodedig gael y statws a'r awdurdod priodol o fewn y strwythur rheoli;
- Yn ogystal â hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, dylai'r arweinydd dynodedig ymgymryd â'r hyfforddiant AALl ychwanegol gofynnol ar gyfer arweinwyr diogelu mewn ysgolion;
- Bod holl staff eraill sy'n gweithio gyda phlant yn derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau am amddiffyn plant yn effeithiol. O fewn hyn, mae'n bwysig bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u hadnewyddu mewn perthynas â diogelu plant;

- Bod yswiriant yn ei le ar gyfer myfyrwyr;

- Y cynhelir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch ar gyfer adeiladau'r darparwr ac unrhyw achlysur allgyrsiol perthnasol a drefnir;

- Y cynhelir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch yn benodol i anghenion myfyrwyr bregus (fel y nodir gan yr ysgol), gan gymryd i ystyriaeth nodweddion iechyd, cymdeithasol a phersonol yn ogystal ag oedran a phrofiad. Dylid sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei rannu fel bo'r angen yn unol â chanllawiau rhannu data'r ysgol, a ble mae'n berthnasol, yn unol â dymuniadau'r rhiant a'r disgybl;
- Bod e-sgol wedi derbyn y manylion priodol am bob disgybl fel y'i nodir yn ystod y broses anwytho ysgolion.

## Dylai ysgolion sy'n derbyn cyrsiau canolog e-sgol sicrhau:

- Bod holl staff/ymwelwyr/myfyrwyr yn cael gwybod pwy yw'r Arweinydd/Dirprwy Diogelu Dynodedig ar gyfer y sefydliad.

- Os oes, ar unrhyw adeg, risg o niwed difrifol uniongyrchol i blentyn, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdodau brys perthnasol ar unwaith.

- Bod ganddynt bolisi diogelu plant mewn lle sydd yn unol â'r gweithdrefnau cenedlaethol.

- Eu bod yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn gwneud yn siŵr bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant.

- Bod ganddynt weithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol.

- Bod aelod o UDRh yr ysgol wedi'i ddynodi i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am ymdrin â materion diogelu plant, darparu cyngor a chymorth i staff eraill, cysylltu â'r awdurdod lleol, a gweithio gydag asiantaethau eraill. Rhaid i'r person dynodedig gael y statws a'r awdurdod priodol o fewn y strwythur rheoli.

- Yn ogystal â hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, dylai'r arweinydd dynodedig ymgymryd â'r hyfforddiant AALl ychwanegol gofynnol ar gyfer arweinwyr diogelu mewn ysgolion.

- Bod holl staff eraill sy'n gweithio gyda phlant yn derbyn hyfforddiant priodol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau am amddiffyn plant yn effeithiol. O fewn hyn, mae'n bwysig bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a'u hadnewyddu mewn perthynas â diogelu plant

- Y cynhelir asesiadau risg Iechyd a Diogelwch yn benodol i anghenion myfyrwyr bregus (fel y nodir gan yr ysgol), gan gymryd i ystyriaeth nodweddion iechyd, cymdeithasol a phersonol yn ogystal ag oedran a phrofiad. Dylid sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei rannu fel bo'r

e-sgol

angen yn unol â chanllawiau rhannu data'r ysgol, a ble mae'n berthnasol, yn unol â dymuniadau'r rhiant a'r disgybl;

- Bod e-sgol wedi derbyn y manylion priodol am bob disgybl fel y'i nodir yn ystod y broses anwytho ysgolion.

I gael rhagor o wybodaeth am fathau o gam-drin ac esgeulustod a chael mynediad at ganllawiau arbenigol ar faterion diogelu penodol gweler:

Social care Wales (diogelu.cymru)

## Dylai darparwyr cyrsiau Ymlaen Gyda'r Dysgu sicrhau:

- Bod holl bryderon diogelu yn cael eu hadrodd i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig e-sgol a'r ysgol gartref ar unwaith a bydd ysgol gartref y dysgwr wedyn yn cytuno pwy fydd yn gwneud yr atgyfeiriad os oes angen ac/neu yn penderfynu ar y camau ymatebol priodol;

- Os oes, ar unrhyw adeg, risg o niwed difrifol uniongyrchol i blentyn, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdodau brys perthnasol ar unwaith;

- Bod ganddynt bolisi diogelu plant mewn lle sydd yn unol â'r gweithdrefnau cenedlaethol;

- Eu bod yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn gwneud yn siŵr bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant;

- Bod ganddynt weithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff a gwirfoddolwyr sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol;

- Eu bod yn dilyn y canllawiau cyflwyno a amlygwyd yn ystod yr hyfforddiant gychwynnol sef:

    - *Dylid gwisgo'n addas ar gyfer darparu'r cyrsiau*
    - *Dylai cefndir TEAMS y darparwr fod wedi ei lwydo/yn cynnwys llun addas fel nad oes modd gweld y cefndir iawn*
    - *Dylid ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol yn ystod y sesiynau*
    - *Dylid sicrhau bod yr adnoddau yn briodol ac yn addas*

## Dylai darparwyr cyrsiau Carlam Cymru sicrhau:

- Bod holl bryderon diogelu yn cael eu hadrodd i Brif Swyddog Amddiffyn Plant e-sgol (neu un o'r dirprwyon os nad yw'r Prif Swyddog ar gael) ar unwaith a bydd e-sgol yn cytuno ar y camau ymatebol priodol;

- Os oes, ar unrhyw adeg, risg o niwed difrifol uniongyrchol i blentyn, dylid gwneud atgyfeiriad i'r awdurdodau brys perthnasol ar unwaith;

- Eu bod wedi cwrdd â gofynion recriwtio diogel Ceredigion a bod yr holl wiriadau perthnasol wedi eu cymeradwyo;

- Eu bod yn dilyn y canllawiau cyflwyno a amlygwyd yn ystod yr hyfforddiant gychwynnol sef:

    - *Dylid gwisgo'n addas ar gyfer darparu'r cyrsiau*
    - *Dylai cefndir TEAMS y darparwr fod wedi ei lwydo/yn cynnwys llun addas fel nad oes modd gweld y cefndir iawn*
    - *Dylid ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol yn ystod y sesiynau yn unol â gofynion Safonau Proffesiynol Athrawon 2017*
    - *Dylid sicrhau bod yr adnoddau yn briodol ac yn addas ac yn cyd-fynd â'r gofynion brandio*

# Strwythur Amddiffyn Plant e-sgol



Llifon Ellis (Pennaeth Strategol e-sgol)

Llifon.ellis@e-sgol.cymru

Prif Swyddog Amddiffyn Plant e-sgol




Helen Meredith
Arweinydd e-sgol y Gogledd

Helen.Meredith@e-sgol.cymru

Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant




Stephen Williams
Arweinydd e-sgol y Canolbarth

Stephen.Williams@e-sgol.cymru

Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant




Rhian Rees-Thorne
Arweinydd e-sgol y De

Rhian.Rees-Thorne@e-sgol.cymru

Dirprwy Swyddog Amddiffyn Plant

**Manylion Cyswllt Perthnasol arall:**

**Person Cyswllt Ymlaen Gyda'r Dysgu:** Siwan Richards (siwan.richards@e-sgol.cymru)

**Person Cyswllt Carlam Cymru:** Nia Jones (nia.jones2@e-sgol.cymru)

## Cyswllt Amddiffyn Plant Ceredigion:

Kizzie Garner (kizzie.garner-hughes@ceredigion.gov.uk)